# Y Cwtsh Cymreig

## Darparwyr Gofal — Childcare providers

### CARU'N CYNEFIN

'Y man lle rydyn ni'n teimlo ein bod yn perthyn, lle mae'r bobl a'r tirlun o'n cwmpas yn gyfarwydd, ac rydyn ni'n cael tawelwch meddwl o adnabod y golygfeydd a'r seiniau. Y man hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi llywio'r gymuned sy'n byw yno, ac sy'n parhau i wneud hynny.'

Cwricwlwm i Gymru: Llywodraeth Cymru ( 2020)

## Sut mae hyn yn plethu mewn i'r Fframwaith CDGPC?

(Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar - yr ECPLC)

### Llwybr Datblygiadol -Perthyn

'Gall ymdeimlad o gynefin arwain at deimladau cadarnhaol o gyswllt â'r cartref a'r lleoliad, ac wrth i'r plant ddod yn hŷn gall hyn ehangu i'r gymuned, Cymru a'r byd ehangach.. '


### Cynllunio ar gyfer cyfleoedd

**Cwestiynau i'w hystyried:**

- Beth sydd yn ein hardal leol?
- Lle rydym wedi'n lleoli a sut rydym yn cysylltu ag ardaloedd eraill cyfagos?
- Pa dirnodau sydd gyda ni yma?
- A oes unrhyw ddigwyddiadau neu straeon hanesyddol y gallwn eu rhannu neu eu dathlu?
- Beth sy'n bwysig i'n hardal ni?
- Pa ieithoedd sy'n cael eu siarad yn bennaf yn ein hardal leol a theuluoedd?
- Pa ddiwylliannau mae ein teuluoedd yn y lleoliad yn eu dathlu?

Am fwy o wybodaeth am 'gynefin', mae NDNA wedi cynhyrchu taflen ffeithiau i gefnogi lleoliadau:

https://ndna.org.uk/wp-content/uploads/2022/07/Wales-Cynefin-Curriculum-for-Wales-Factsheet.pdf





Dechrau'n Deg Flying Start

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

Llywodraeth Cymru Welsh Government



# Syniadau ar ymgorffori'r ymdeimlad o 'gynefin'

## Ein hardal leol

- Archwiliwch eich cymuned drwy fynd am dro - beth sydd yma? Lle welwn ni natur?
- Creu cysylltiadau â busnesau, sefydliadau lleol, a chynnwys y rhain mewn gweithgareddau pellach sydd wedi'u cynllunio megis trefnu ymweliadau a sgyrsiau.
- Cysylltwch hefyd âg artistiaid lleol gan gynnwys cerddorion ac orielau i gymryd rhan mewn prosiectau.
- Creu 'basged Cynefin' sy'n cynnwys eitemau a gasglwyd o'r ardal leol neu eitemau byd bach y gellir eu defnyddio i symboleiddio nodweddion o'u hardal leol (enghraifft i'r dde).
- Fel arall, gellir defnyddio llyfryn neu arddangosfa i rannu lluniau ac i fyfyrio ar brofiadau'r plant o fewn eu cymuned leol.



Blociau gyda lluniau o brif dirnodau'r ardal leol yn yr ardal darnau rhydd / blociau.




Diolch i Gylch Meithrin y Bedol am rannu'r lluniau uchod.


## Dathlu diwylliant



Cadwch lygad allan am unrhyw ddathliadau neu ddigwyddiadau lleol y mae eich teuluoedd yn eu dathlu'n ddiwylliannol. Mae cynnwys rhieni a gofalwyr mewn gweithgareddau yn ffordd wych o gryfhau'r cyswllt cartref â'ch lleoliad, gan atgyfnerthu'r ymdeimlad les a pherthyn.



Ystyriwch y synhwyrau wrth gynllunio i ddarparu cyfleoedd chwarae sy'n cynnwys Cymru a diwylliannau eraill, megis:



- Gwrando ar straeon a cherddoriaeth draddodiadol Gymreig (ac o ddiwylliannau eraill)
- Gwylio a chyfrannu at ddawnsfeydd traddodiadol
- Coginio a blasu bwydydd traddodiadol
- Edrych ar a theimlo dillad ac arteffactau traddodiadol.





